# y dinesydd

Tachwedd 2001 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 267


CAERDYDD2008

PRIFDDINAS DIWYLLIANT EWROP

## CAIS PRIFDDINAS DIWYLLIANT

Caiff pobl ym mhob rhan o Gymru eu hannog i gefnogi cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008, a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Y Cyngor a'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ariannu'r ymdrech £1m i gystadlu yn erbyn sawl dinas Brydeinig gan gynnwys Lerpwl, Belffast a Newcastle/Gateshead, ac maent yn awyddus i bwysleisio mai cais ar ran Cymru gyfan fydd e. Mae'r trefnwyr yn bwriadu teithio ar hyd ac ar led i wrando ar farn pobl Cymru wrth benderfynu beth ddylai gael ei gynnwys yn y cais ac roedd yn galonogol clywed mai Abertawe oedd un o'r cyntaf i gefnogi'r ymgyrch.

O dan gytundeb gan yr Undeb Ewropeaidd dynodir dinas fel Prifddinas Diwylliant Ewrop bob blwyddyn a byddai'n hwb aruthrol i Gaerdydd i gael ei dewis.



Hyrwyddwyd dinas Glasgow, a enillodd yr anrhydedd ym 1990, ar draws Ewrop, gan arwain at fanteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol tymor-hir.

Bydd angen sicrhau bod y cais yn cynnwys holl gwmpas y gweithgareddau diwylliannol a adlewyrchir yng Nghymru gan gynnwys nid yn unig y celfyddydau, ond hefyd archaeoleg, pensaernïaeth, crefftau, chwaraeon a llawer mwy.


Bydd rhestr fer yn cael ei pharatoi erbyn diwedd y flwyddyn nesaf a disgwylir i enw'r enillydd gael ei gyhoeddi erbyn gwanwyn 2003. Cewch ragor o wybodaeth am y cais o Flwch SP 2008, Caerdydd, CF10 1WE, ffôn 029 2087 2008, neu o www.caerdydd2008.co.uk

• • •

## S4C YN COFFAU GWENLYN PARRY

Wythnos gyntaf mis Tachwedd bydd S4C yn nodi dengmlwyddiant marw y dramodydd Gwenlyn Parry ar y pumed o Dachwedd 1991. I nodi'r pen-blwydd mae S4C yn rhoi llwyfan dyladwy i'r cymeriad amryddawn hwn drwy ddarlledu cyfres o raglenni yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd.

Dyma ddramodydd pwysicaf Cymru tua diwedd yr ugeinfed ganrif a bu ei gyfraniad i fyd y theatr yng Nghymru yn enfawr; roedd yn ddyn teledu hefyd, yn gyd-awdur y gyfres gomedi deledu Fo a Fe gyda'i gyfaill pennaf Rhydderch Jones, a hefyd yn un a gyd-ysgrifennodd y ffilm lwyddiannus Grand Slam a rhoi'r anadl gyntaf i'r gyfres sebon Pobol y Cwm gyda'i gyfaill yn y BBC, John Hefin.



Bydd y deyrnged hon yn cynnwys dwy raglen ddogfen, addasiad newydd sbon BBC Cymru o Y Tŵr, ail-gyfle i weld pennod o Fo a Fe, ac ail-ddarllediadau ar S4C Digidol o addasiadau teledu o rai o'i ddramâu.

Bydd BBC Cymru hefyd yn talu teyrnged i Gwenlyn am ei gyfraniad i'w harchif dros y blynyddoedd drwy ailddarlledu ar S4C Digidol addasiadau o rai o'i ddramâu a deledwyd gyntaf yn ystod y 70au a'r 80au, gan gynnwys Saer Doliau, Y Tŵr a Panto.

Mi fydd yn wythnos bwysig iawn ar S4C - yn gyfnod trist o goffáu ar un llaw ddramodydd disglair a gipiwyd oddi arnom yn ddyn ifanc, 59 oed. Ond mi fydd hefyd yn gyfnod o ddathlu a gwerthfawrogi oherwydd bydd gwaith a chyfraniad Gwenlyn Parry i ddiwylliant Cymru yn aros yn fyw am ddegawdau i ddod.

## MENTER CAERDYDD YN LANSIO GWEFAN NEWYDD

Mae Menter Iaith Caerdydd wedi lansio gwefan ddwyieithog newydd er mwyn helpu pobl sydd eisiau gwybod mwy am yr iaith yn ein prifddinas. Mae'r wefan, a noddir gan Lloyds TSB, yn cynnwys ystadegau am yr iaith yng Nghaerdydd, rhestr o ddigwyddiadau lleol, a rhestr o holl fudiadau Cymraeg yr ardal.

Dywed Gareth Kiff, Swyddog Datblygu'r Fenter, "Rydym yn ychwanegu at gynnwys y wefan newydd yn barhaol, a theimlwn yn hyderus y bydd yn ddefnyddiol i Gymry Cymraeg a phobl di-Gymraeg sydd am wybod mwy am yr iaith yng Nghaerdydd."

Gellid cysylltu â'r dudalen ar www.mentercaerdydd.org.

# Y Dinesydd

**Tachwedd, Rhif 267.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Siân Parry-Jones

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Alun a Mair Treharne

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Rhag./Ionawr 2001 erbyn 24 Tachwedd at:**
Alun a Mair Treharne, 91 Windermere Ave., Parc y Rhath, Caerdydd, CF23 5PS (Ffon: 2075-4436;
e-bost: alun.treharne@unisonfree.net)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754),
E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;
E-bost: MennaGwyn@aol.com)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

**Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm**
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................


.......................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ..........................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 27** **Tachwedd 2001**



**Ar Draws**

1. Rhyw hanner gogwydd tuag at le diwedd dydd ond nid yn y De! (6)
4. A all dafn droi'n ran o'n dinas (6)
9. Traethu, ie, a throi o gwmpas (7)
10. Carw, fel corff marw wedi colli ei phen (5)
11. Ymdroi ar yn ail mewn orendai efallai (4)
12. Tro, tro hyd ddiwedd Mawrth ac fe gei fara (4)
13. Gwaedd y corgi ar yn ail (3)
15. Gallu y wawr yn Lloegr (4)
16. 'Ni'th ___ yr haul y dydd, na'r lleuad y nos' (Salmau) (4)
19. Cael gwefr wrth weld dechrau iachau anifeiliaid sâl (3)
21. Bron dihuno a bod yn wyliadwrus (4)
22. Wylo heb ddechrau llidio (4)
24. Rhostio iâr a hanner yr haidd gwyrdd (5)
25. 'Y chwedlau cain a ____ ers canrifoedd
Y duwiau na ŵyr neb amdanynt 'nawr' (Waldo) (7)
26. Arglwydd olaf Mawrth a marc cryf (6)
27. Cant o ddwylo yn rhoi cymorth (6)

**I Lawr**

1. Ha! Digiodd Ogwen ffôl y gwesteion (13)
2. Dwg Enid allan o'i llesgedd… (7)
3. … ar wahân i'r eirth gwyllt (4)
5. Deg yn cefnu ar offrwm ysgubol (8)
6. Rhoi naid i fyny o flaen cant, a ffoi (5)
7. 'Fe gyfoethogwyd meysydd, byd
Gan ____ ____ ____' (H. Cernyw Williams) (6, 4, 3)
8. Gwagle uchel mewn amgylchiadau llesol yn Lloegr (5)
14. Gorweiddi yn aflafar a sylfaenu (8)
17. Blagur yn newid ewyllys Gwilym (7)
18. Dwyno drwy roi mewn dŵr (5)
20. A oes diolch ymhlith y sêr ar y grisiau? (5)
23. Llon yn codi i gael bwyd (4)

**Atebion Croesair 26**

**Ar draws:** 2. Broga; 5. Nabl; 7. Cloch; 8. Drygioni; 9. Bethabara; 11. Mawr; 12. Bawn i fel y nant; 15. Acer; 17. Canoldir; 19. Digyfrif; 21. Dail; 22. Corn; 23. Ydlan. **I Lawr:** 1. Helaetha; 2. Bach; 3. Oedfa; 4. Ar yn ail; 5. Nai; 6. Benyw; 10. Anner; 11. Manwl; 13. Ficerdy; 14. Neithiwr; 16. Crino; 18. Nofel; 20. Ynn; 21. Dyn.

Derbyniwyd 14 o gynigion a dim ond un a gwall ynddo. Danfonir y tocyn llyfr i Hywel Jones, 4 Heol Heath Halt, Y Mynydd Bychan.

Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Megan Griffith, Beryl Hall, Gaenor Hall, Heledd Hall, Gwenda Hopkins, H.O.Hughes, Idwal Hughes, Eira Jones, E Haydn Jones, Buddug Roberts, James Wiegold a Iona Warmington.

**Cystadleuaeth Tachwedd 2001**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 20 Tachwedd 2001.

# Calendr y Dinesydd

**Llun, 5 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf am 7.00 erbyn 7.30. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 2075 3625; e-bost: tony.couch@talk21.com).

**Llun, 5 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Côr Canna, dan arweiniad Delyth Medi, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mercher, 7 Tachwedd**
Merched y Wawr Bro Radur: 'Radur Ddoe.' Sgwrs gan Allan Cook, yn Neuadd y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.

**Iau, 8 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 erbyn 7.30. Sgwrs gan Falmai Griffiths: 'O'r Wlad i'r Dref.' Manylion pellach: 2065 7730 neu 2062 4878.

**Iau, 8 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Masnachu am Fywyd.' Sgwrs gan Elenid Jones yn Eglwys y Crwys, 77 Richmond Road, am 7.30 p.m.

**Gwener, 9 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd gan Gôr Plant Caerdydd dan arweiniad Mair Robins ym Methel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at elusen leol.

**Gwener, 9 Tachwedd**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Penny Readings' dan gadeiryddiaeth y Parch. Denzil John, am 7.30 p.m.

**Gwener, 9 Tachwedd**
Cylch Cadwgan: Darlith-gyflwyniad, 'Cnoc, cnoc! Pwy sy 'na?', gan John Ogwen a Maureen Rhys, yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 8.00 p.m.

**Llun, 12 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd, yn cyfarfod yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Llun, 12 Tachwedd-Iau, 15 Tachwedd**
Ysgol Gyfun Glantaf yn perfformio'r sioe gerdd, 'Primadonna', yn neuadd yr ysgol. Manylion pellach: 2033 3090.

**Mercher, 14 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Gwilym Roberts, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

**Gwener, 16 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Gwilym R.: O Dal-y-sarn i Ddinbych'. Darlith gan y Parch. W. I. Cynwil Williams am 7.00 p.m. yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.

**Sadwrn, 17 Tachwedd**
Ysgol Undydd gan Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd ar y tesun 'Pregethwyr a Chenhadon' yn Eglwys y Crwys, 77 Richmond Road. Darlithwyr: Sioned Davies, Hywel Teifi Edwards, E. Wyn James, Aled Gruffydd Jones. Manylion pellach: Yr Athro J. Gwynfor Jones, Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Caerdydd, Rhodfa Colum, Caerdydd (Ffôn: 2087 4000).

**Sul, 18 Tachwedd**
Cymanfa Ganu Flynyddol yn Eglwys y Crwys, am 2.30 p.m. Mynediad am ddim. Casgliad tuag at Gymorth Cristnogol.

**Llun, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Llygredd ac Iechyd Pobl.' Darlith gan Dr David Russell, am 7.30 p.m. ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.

**Mawrth, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson gwis yng nghwmni Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a Phenarth, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 21 Tachwedd**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs gan Dr E. Wyn James ar Ann Griffiths yr emynyddes, am 7.00 p.m.

**Sadwrn, 24 Tachwedd**
Ffair Nadolig yn Ysgol y Wern, Heol Llangrannog, Llanisien, 12 - 3pm. Detholiad eang ac amrywiol o anrhegion a nwyddau ar gyfer y Nadolig. Bydd Siôn Corn yna hefyd. Mynediad 50c i oedolion, am ddim i blant.

**Mawrth, 27 Tachwedd**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Y Cyfryngau a Fi' gan Rhiannon Rees, am 7.30 p.m.

**Mercher, 28 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Alma Carter, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

**Sadwrn, 1 Rhagfyr**
'Sêr y Salem' yng nghapel Salem, Treganna, am 7.30 p.m.

**Llun, 3 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson yng nghwmni Roy Saer, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 3 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf am 7.00 erbyn 7.30. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 2075 3625; e-bost: tony.couch@talk21.com).

**Mawrth, 4 Rhagfyr**
'Mawl ar y Môr.' Noson o fawl ar fwrdd y llong Logos II, Cei Britannia, Basn y Rhath, Bae Caerdydd, am 7.30 p.m.

**Mercher, 5 Rhagfyr**
Merched y Wawr Bro Radur: 'Coginio Nadolig' gan Eluned Davies-Scott, yn Neuadd y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.

**Iau, 6 Rhagfyr**
'Cwrdd â'r Byd.' Prynhawn o eitemau rhyngwladol ar fwrdd y llong Logos II, Cei Britannia, Basn y Rhath, Bae Caerdydd, am 2.30 p.m.

**Gwener, 7 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: Noson Nadoligaidd yng nghwmni Alwyn Samuel yn theatr Eglwys y Crwys, 77 Richmond Road, am 7.15 p.m.

**Llun, 10 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Cinio Nadolig yn festri Eglwys Minny Street am 1.00 p.m.

**Mawrth, 11 Rhagfyr**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: Côr Cantemus, dan ofal Catrin Lloyd, am 7.30 p.m.

**Mercher, 12 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Gwasanaeth a the yng nghwmni'r Parch. Eirian Rees, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 1.30 p.m.

**Gwener, 14 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd gan Gôr Hamdden Caerdydd dan arweiniad Meudwen Davies ym Methel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at elusen leol.

**Llun, 17 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Fy ngwaith yn Ysbyty Llanddochau' gan Rhian Williams, am 7.30 p.m. ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.

**Mawrth, 18 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson Nadoligaidd wedi'i threfnu gan Ferched y Wawr, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 19 Rhagfyr**
Cymdeithas Ty^'r Cymry, 11 Heol Gordon: Parti Nadolig, am 7.00 p.m.

**Llun, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Oedfa Gannwyll, ym Methel, Rhiwbina, am 11.00 p.m.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## POBLOGAETH CAERDYDD YN TYFU

Rhwng 1991 a chanol 2000 cynyddodd poblogaeth Cymru o 1.9% i 2,946,200; ac yng Nghaerdydd cynyddodd y boblogaeth i 327,500.

## DYDDIAD I'W NODI



Bydd Côr Philharmonic Caerdydd, dan arweiniad Alun Guy, yn perfformio cyngerdd o ganeuon o fyd y Sioeau ar nos Sadwrn Tachwedd 10 yn Neuadd y Brifysgol, Heol Corbett. Bydd y cyngerdd yn dechrau am 7.30pm a bydd tocynnau ar gael wrth y drws am £5.

## Gwledd o Adloniant

Cynhelir 16eg Gŵyl Ddrama Tafod Elái yn Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref nos Fercher, Iau a Gwener, 21 i 23 Tachwedd. Y beirniad eleni yw Ifan Huw Dafydd ('Dic Deryn') ac yn barod mae wyth cynhyrchiad yn cael eu paratoi. Mae'r nosweithiau yn Neuadd Dowlais (rhwng y 'Ship a'r Crown' ar y ffordd i'r Efail Isaf) yn gyfle i fwynhau gwledd o adloniant Cymraeg ac i gymdeithasu dros baned. Mae croeso hefyd i ddysgwyr a pharatoir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Am wybodaeth bellach am yr ŵyl neu am docynnau, ffoniwch Colin Williams: 029 2089 0979.

## CYDYMDEIMLIR Â

• Tegwen Evans a'r teulu yn Llysfaen ar farwolaeth ei mam, Margaretta Roberts, gynt o'r Bala, ar 26 Medi.

• Mair Tudno Jones a'r teulu ar farwolaeth ei mam Glenys Roberts ar 22 Hydref.

• Liz Smith a't teulu ar farwolaeth ei mam Rosemary Davies yn Holme Towers, Penarth ar 19 Hydref.

## LLONGYFARCHIADAU I

• Aled a Kathryn Elias (ac nid Evans, fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf) ar enedigaeth Sara ac Anna ar Awst 23.

• Ian a Sally Knight, y Mynydd Bychan, ar enedigaeth eu mab Deiniol ar yr 16eg o Fedi, wyr i Keith ac Eirwen Jones, Penylan.

• Esther Eckley, merch Eirlys a Geraint Eckley Caerdydd, ar ei dyweddïad â Siôn Aron, mab Myvis a Gareth Jones, Ynys Môn.

• Anna James o Riwbina, merch ifancaf Gwynfor a Bronwen James, ar ei phriodas ag Adam Lotery, Henley, Rhydychen, yng Nghapel Beulah, Rhiwbina ar y 6 Hydref. Byddan nhw'n ymgartrefi yn Reading.

• Dafydd Huw Jones, mab David a Beryl Jones, Cyncoed, ar ei briodas â Caroline Helen Martell, gynt o Gaerfyrddin, yn Eglwys Sant Edeyrn, Llanedeyrn, ar Ddydd Sadwrn, 8 Medi. Maent yn ymgartrefu ym Mhontprennau.

• Andy a Sioned Nash Rhiwbina ar enedigaeth eu merch Mali, ŵyres i Lewis a Siân Evans y Bontfaen a Graham Nash, Llanisien.

## APÊL Y LOLFA

Mae cwmni cyhoeddi y Lolfa yn awyddus i gyhoeddi llyfr yn cynnwys rhai o ddarluniau gorau yn arlunydd Cymreig Mary Lloyd Jones, ond er chwilio'n ddyfal mae'r cwmni wedi methu dod o hyd i nawdd i gynhyrchu'r llyfr. Apêl ydy hyn, felly, am danysgrifiadau i sicrhau y gwêl y llyfr golau dydd a hynny hyn ystod haf 2002. Byddai danysgrifwyr yn derbyn copi o'r llyfr am £20 yn hytrach na £25 i'r cyhoedd ac mae'r Lolfa yn barod i dderbyn unrhyw danysgrifiad hyd yr 31ain o Ragfyr eleni. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Lolfa ar 01970 832304 neu ylolfa@ylolfa.com.

## DATHLU TEILWNG

Daeth llond y Festri ynghyd yng Nghapel Minny Street ar ddechrau Mis Hydref i fwynhau te arbennig fel rhan o ddathliadau Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, sydd yn ddeg oed eleni. Croesawyd pawb gan Dyrinos Thomas, yr Is-Ysgrifennydd, a thraethodwyd y gras bwyd gan y Parch Cynwil Williams. Yn ystod y te cyflwynwyd blodau i Eilonwy Jones a Gwenda Morgan fel gwerthfawrogiad o'u gwaith yn sefydlu'r Aelwyd Hamdden yn y lle cyntaf. Yna, galwyd ar Mrs Edna Rees, aelod hynaf yr Aelwyd, i dorri'r gacen arbennig a wnaethpwyd gan Jill Lewis. Canwyd pen-blwydd hapus i'r Aelwyd gydag arddeliad.



*Mrs Edna Rees, aelod hynaf yr Aelwyd, yn torri'r gacen arbennig i ddathlu penblwydd deg oed yr Aelwyd*

Yn dilyn y te parti cynhaliwyd Cyngerdd y Dathlu yn y capel, ac ar ôl i Dyrinos Thomas groesawu pawb a sôn am sefydlu'r Aelwyd daeth Côr yr Aelwyd i ddiddanu'r gynulleidfa dan arweiniad Meidwen Davies. Yna canodd Côr Plant Caerdydd dan arweiniad Mair Robins. Cafwyd adroddiad gan Myfanwy Jarman, a Iona Jones oedd yr unawdydd gwadd a chyfeiliwyd iddi ar y delyn a'r piano gan Lois Davies. Rhoddwyd diolchiadau i bawb gan Eilonwy Jones, Llywydd yr Aelwyd.

Casglwyd £270 tuag at Apêl Arch Noa, sy'n codi arian i godi ysbyty plant ar safle ysbyty'r brifysgol. Am fanylion ynglŷn â gweithgareddau a chyfarfodydd yr Aelwyd, cysylltwch â'r ysgrifennydd Bob Davies ar 2045 5980 neu â'r Is-Ysgrifennydd Dyrinos Thomas ar 2048 9894.

## WRVS YN CHWILIO AM WIRFODDOLWYR

Pe byddech yn yr Outpatients yn Ysbyty Felindre ar bnawn Llun ac eisiau paned, fe fyddech yn clywed llond ceg o Gymraeg gan y merched sy'n gweini arnoch! Mae nifer o wirfoddolwyr y WRVS (Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched) yn siarad Cymraeg, rhywbeth mae nifer o gleifion yr ysbyty yn ei werthfawrogi, yn enwedig gan fod rhai wedi teithio o bell neu wedi gorfod disgwyl rhai oriau am eu triniaeth. Os hoffech helpu gyda'r gwaith yn Ysbyty Felindre, neu os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda'r tîm Pryd ar Glyd, cysylltwch un â'i gyda'r cyd-gysylltydd yn yr ysbyty, Marian Griffiths (029 2081 3794) neu Swyddog Cyhoeddusrwydd y WRVS yng Nghymru, Lowri Roberts ar 2073 9917.

## APÊL TY HAFAN YN DERBYN RHODD ANARFEROL

Pan briododd Siân Llewelyn, y cyn-gyflwynydd o Gaerdydd, ag Andrew Miller yn yr haf penderfynnon nhw ofyn i bobl rhoi rhoddion tuag at Apêl Ty Hafan yn lle rhoi yr anrhegion priodasol arferol. O ganlyniad roedden nhw'n gallu cyflwyno siec o £12,500 i'r Apêl.

## NEWID SWYDD AM FLWYDDYN

Mae Lis Evans, sy wedi bod yn dysgu yn Ysgol Gymraeg Treganna, newydd gael ei rhyddhau am flwyddyn er mwyn ymuno â Chanolfan Addysg yr Amgylchfyd Dŵr Cymru yng Nghilfynydd. Bydd hi'n dysgu grwpiau o ddisgyblion ysgolion cynradd am y cylch dŵr a sut yr ail gylchir dŵr gwastraffcyn ei drosglwyddo yn ôl i'r amgylchfyd.

## BANC HSBC YN CEFNOGI'R GYMRAEG

Banc HSBC ydy'r cyntaf i gynnig adroddiadau banc Cymraeg i'w cwsmeriaid. Cyflwynwyd yr adroddiad banc Cymraeg cyntaf i John Walter Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith. Pwysleisiodd Sian Elin Jones o HSBC mai banc cymunedol ydy Banc HSBC sy'n hapus i drafod busnes gyda'i gwsmeriaid yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## CYFRES DELEDU S4C I DDYSGWYR

Nia Parry, Treganna, gynt o Landrillo yn Rhos ger Bae Colwyn, ydy'r tiwtor Cymraeg yn y gyfres deledu "Welsh in a Week" sy'n dilyn hanes pymtheg o bobl o wahanol gefndiroedd sy'n dysgu Cymraeg. Cynhyrchir y gyfres gan Gwmni Teledu Fflic. Un o'r dysgwyr ydy David Edwards, gynt o'r Barri, a enillodd y jacpot yn y gyfres deledu "Who Wants to be a Millionaire". Cyn ymgymryd â'i swydd â'r gyfres hon bu Nia yn diwtor llawn amser yn y Ganolfan Iaith ym Mhlas y Parc.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG CAERDYDD

Brynhawn dydd Sul, 7 Hydref, cynhaliwyd Te Croeso i'r myfyrwyr. Yn dilyn y te holwyd Siân Angharad Jones am ei thystiolaeth Gristnogol, a soniodd Steffan Jones am ei waith gwirfoddol gydag Undebau Cristnogol Cymraeg Abertawe a Chaerdydd. Dymunwn yn dda iddo yn y gwaith.

Nos Fawrth, 16 Hydref, daeth nifer ynghyd i wrando ar Siôn Meredith, Aberystwyth, a Gaenor Pitcock, Rhiwbina, yn sôn am rai o brosiectau diweddaraf Tear Fund yng ngorllewin Affrica.

Am 7.30 p.m. nos Fawrth, 6 Tachwedd, cynhelir Swper Diolchgarwch yn adeilad yr eglwys, Stryd Rhymni, Cathays. Y siaradwr gwadd eleni yw'r Parch. Geraint Morse, sy'n weinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghaerfyrddin. Yna, nos Sul, 11 Tachwedd, cynhelir oedfa arbennig i'r dysgwyr. Croeso cynnes i bawb.

## MINNY STREET, CAERDYDD

'Rym wedi cael nifer o oedfaon cofiadwy dros yr wythnosau diwethaf. Fore Sul olaf mis Medi gwelwyd ein Gweinidog, y Parchg Eifion Powell, yn ôl yn y pulpud yn pregethu. Hyfrydwch oedd cael ei arweiniad unwaith yn rhagor ar ôl cyfnod o dostrwydd. Dymunwn y bydd yn parhau i wella a chryfhau.

Ar y nos Sul olaf ym mis Medi, ymunodd llond bws o gyfeillion o Dreforys yn ein hoedfa hwyrol gyda'r Parchg Ieuan Davies yn ôl ym mhulpud Minny Street yn pregethu. Yna fore Sul cyntaf mis Hydref cafwyd oedfa arbennig iawn dan arweiniad yr Ysgol Sul ar thema elusen yr Eglwys am y flwyddyn i ddod - Apêl Arch Noa. Gyda'r enfys yn ganolbwynt i'r gwasanaeth cawsom gyfraniadau niferus gan blant a phobl ifanc o bob oed ac fe gafwyd ychydig o hanes a bwriad yr elusen gan y Dr Emrys Evans.

Yn unol â'u harfer, dechreuwyd tymor Y Gymdeithas gydag oedfa hwyrol ar nos Sul, Hydref 21. Gydag aelodau'r pwyllgor yn cymryd rhan yn y gwasanaeth cawsom hefyd gyfle i groesawu a gwrando ar Swyddog Ieuenctid newydd Eglwysi Annibynnol Caerdydd, Casnewydd, Penarth a'r Barri sef Carys Davies. 'Roedd brwdfrydedd heintus Carys yn anogaeth, ac yn her, i ni gyd. Pob dymuniad da iddi.

## EGLWYS ANNIBYNNOL GYMRAEG Y BARRI

Dychwelodd pawb o'i gwyliau yn ddiogel ac yn barod ar gyfer cychwyn tymor newydd yr Eglwys. Dechrau Medi, croesawyd Carys, ein Gweithiwr Ieuenctid i'n plith. Cynhaliodd dri chyfarfod llwyddiannus, un gyda'r plant a dau gyda phobl ifanc yr Eglwys, ac edrychwn ymlaen at y digwyddiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer y dyfodol.

Aeth llond bws o aelodau o bob oed i 'Diwrnod i'r Brenin' ar ddydd Sadwrn, 22 Medi, a chafwyd Diwrnod i'r Brenin yn wir! Llawenydd mawr oedd gweld y baneri y bu aelodau'r Ysgol Sul yn eu paratoi ar gyfer y Ŵyl yn rhan o'r brithwaith lliwgar.

Dathlwyd y cynhaeaf yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc, a dosbarthwyd y ffrwythau a'r llysiau ymhlith cleifion a henoed yr Eglwys.

## LLYFR AM GAPEL SALEM TREGANNA

Mae aelod o Gapel Salem, Richard Hall Williams, a chyn weinidog y capel, y Parch Haydn Thomas, newydd gyhoeddi llyfr yn adrodd hanes y capel o'r dechrau ym 1856 hyd heddiw. Sefydlwyd y capel yn Stryd Albert, ond symudwyd i'r safle presennol ym 1911. Gellir prynu copi o'r llyfr am £6.99 drwy gysylltu â Richard Hall Williams ar 2056 2472 neu â'r gweinidog presennol, y Parch Evan Morgan, ar 2022 1745.

## FFARWELIO A CHROESAWU YN Y CRWYS

### Cyfarfod Ffarwelio â'r Parch W I Cynwil Williams

Daeth tyrfa niferus ynghyd yn Eglwys y Crwys ym mis Gorffennaf ar achlysur i gydnabod ein dyled a'n gwerthfawrogiad oll i'n gweinidog hoff a rhadlon, y Parch. W I Cynwil Williams, ar derfyn ei Weinidogaeth hir yn yr Eglwys ac ar achlysur ei ymddeoliad.

Offrymwyd gweddi o ddiolchgarwch gan y Parch Gareth L Reynolds, a nododd yr awyrgylch o lawenydd gwerthfawrogol a welid yn y dathlu. Rhoddwyd diolch am dystiolaeth y gweinidog a'i ddoniau trwy ei ddarllen eang, yr ysgrifennu, y gwrando a'r dweud. Cofiwyd amdano yn rhoi i ni air priodol yn ei bryd, ei gyngor doeth a'i arweiniad cywir, ac am bob caredigrwydd a chymwynas barod a gawsom oll ganddo.
Mewn anerchiad gan Mr Delwyn Tibbott clywsom y byddai'r gweinidog wedi bedyddio 191 o blant yn y Crwys erbyn fore trannoeth, ac iddo dderbyn 171 o bobl ifanc i gyflawn aelodaeth o'r eglwys yn ystod ei gyfnod yn y Crwys.

Llywydd yr achlysur oedd Mr D Gwyn Jones, a chroesawodd merched y gweinidog, Dr Catrin Haf Williams a Dr Lisa Williams, i'r cyfarfod a chyflwynwyd blodau i Mrs Carol Williams gan Mrs Irene Roberts i ddiolch yn gynnes iddi am ei gwaith dyfal gyda'r Grŵp Merched. Daeth y cyfarfod arbennig i ben gyda the parti yn y theatr a'r festri. Dymunwn yn dda i'r Parch W I Cynwil Williams a'i deulu yn y dyfodol.



*O'r chwith: Bob Roberts, Parchedig Glyn Tudwal Jones, Yr Athro Dr. J. Gwynfor Jones, Parch John Gwilym Jones*

### Gwasanaeth Sefydlu y Parch Glyn Tudwal Jones, M.A.

'Yn y Crwys y mae croeso' yw'r arwyddair a welir ar hysbysfwrdd mawr yn ffrynt Eglwys y Crwys, Heol Richmond, Caerdydd. Dyma hefyd oedd cywair digamsyniol a nôd amgen Gwasanaeth Sefydlu'r Parch. Glyn Tudwal Jones, M.A., yn weinidog ar yr Eglwys brynhawn Sadwrn, Hydref 13eg. Llywyddwyd y cyfarfod ac estynnwyd croeso ar ran Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg gan Mr Richard Hall Williams. Roedd yn falch o groesawu teulu'r gweinidog yn ogystal â chynrychiolaeth deilwng ofalaethau Twr-gwyn, Caerhun, Pentir, Llanfairfechan ac Abergwyngregyn.

Un o Fae Colwyn yw'r Bugail newydd. Clywyd iddo ddal swyddi cyfrifol yn ein Cyfundeb, nid lleiaf o'r rhain oedd Llywydd y Gymanfa Gyffredinol o 1999-2000, a bu'n Olygydd 'Y Goleuad' am chwe blynedd. Yn ogystal â'i waith bugeiliol, bu'n Gaplan yn Ysbyty Gwynedd ac yn ddarlithydd rhan-amser i'r Brifysgol ym Mangor a chofia llawer ohonom yn ennill y wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978 am Lyfryn Cyfarwyddyd i'r Cristion Ifanc, 'Cymorth cyn cymuno'.

Estynnwn groeso cynnes iawn i'n gweinidog newydd.

## DATHLIADAU'R DDINAS

Bydd llawr sglefrio awyr agored cyntaf Caerdydd yn cael ei sefydlu tu allan i Neuadd y Ddinas ym mis Rhagfyr, a fydd yn un o uchafbwyntiau dathliadau Nadolig y ddinas. Bydd y llawr ar agor o ganol dydd tan tua 9 o'r gloch y nos, ac o'i amgylch bydd caffi awyr agored - gyda gwresogyddion! - a stondinau yn gwerthu anrhegion. Gobaith y Cyngor, sydd wedi denu'r atyniad i'r ddinas, yw bydd y teulu cyfan yn manteisio ar y cyfle i fwynhau'r sglefrio ac maent yn addo bydd y gost yn rhesymol.

Yn ogystal â'r llawr sglefrio bydd y Cyngor yn gwario tua £40,000 ar oleuadau ac addurniadau Nadolig, gan gynnwys dwy goeden o Hordaland yn Norwy - un o efeilldrefi Caerdydd - a bydd un arall yn cael ei greu yn y Basn Hirgrwn yn y Bae.

Am ragor o wybodaeth am y llawr sglefrio ac am ddathliadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, cysylltwch ag adran Farchnata a Thwristiaeth y Cyngor ar 2087 3690.

## CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

Fe'i cynhaliwyd ar y 11 Hydref gyda dim ond unarddeg yn bresennol. Cafwyd adroddiadau gan y Trysorydd, y Prif Ddosbarthwr a'r Cadeirydd, cyn ethol Swyddogion a Phwyllgor ar gyfer 2001/02. Y Cadeirydd ydy Dr E Wyn James; Is-Gadeirydd John Rowlands; Ysgrifennydd y Pwyllgor Julie Jones; Swyddog Hysbysebion Menna Gwyn; Swyddog y We Peter Bradley; Trysorydd i'w benodi; a bydd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor, sef Robin Jones, WJ Jones, Ceri Morgan, Gwilym Roberts, Robin Griffith, Linda Thomas, Garwyn Davies a Sian Parry-Jones. Diolchodd y Cadeirydd i bawb sydd wedi bod ynghlwm wrth y papur am eu gwaith a diolchodd hefyd i'r unigolion a'r cymdeithasau a'r Capeli a gefnogodd Y Dinesydd yn ariannol yn ystod y flwyddyn.

## COFIO GWRAIG ARBENNIG

Nos Sadwrn y 6ed o Hydref gwelwyd dros drigain o bobl yn ymgynnull yn Ystafell Iolo Morgannwg yn Amgueddfa Werin Cymru i wrando ar Ddarlith Goffa Gwyneth Morgan a draddodwyd gan Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies. Cafwyd amlinelliad o fywyd Gwyneth Morgan a'i chyfraniad unigryw i dwf addysg Gymraeg, yn arbennig yn y De Ddwyrain, gan gynnwys sefydlu Cronfa Glyndwr ym 1963 a gynigiodd gymorth gwerthfawr iawn i hybu addysg drwy'r Gymraeg.

Soniodd yr Arglwydd Prys Davies fod angen i ni fod yn wyliadwrus o'r honiad bod y frwydr i sicrhau chwarae teg i'r Gymraeg wedi ei hennill.

Cyflwynwyd y gŵr gwadd gan Gerallt Latter a chafwyd darlleniad gan Lis Miles o englynion coffa i Gwyneth Morgan a gyfansoddwyd gan Gerallt Lloyd Owen. Siaradodd Branwen Jarvis, merch Gwyneth Morgan, ar ran y teulu, gan fynegi eu diolchgarwch i Gronfa Glyndwr am drefnu coffa ei mam.

## CWMNI DRAMA'R CRWYS

Cafwyd dau berfformiad campus o ddrama Allan Ayckbourne "Cofio Cyfeillion" gan Gwmni Drama'r Crwys yn Theatr y Cwmni yn Eglwys y Crwys ddiwedd mis Medi, o flaen theatr llawn. Daeth llond bws o bobl o Borthcawl i chwyddo'r gynulleidfa ar un noson, ac yn ôl y chwerthin yn ystod y perfformiad cafodd pawb werth eu harian! Cymerwyd rhan yn y ddrama gan Janet Parry-Jones, Arran Dallimore, Non Davies, Bob Roberts, Andrew Bartholomew a Robin Jones, a'r cynhyrchydd oedd George Owen. Llongyfarchiadau i bawb oedd ynghlwm wrth y cynhyrchiad.

Mae'r cwmni drama yn croesawu aelodau newydd - boed yn actorion neu'n wirfoddolwyr i helpu gyda chynhyrchiadau. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Bob Roberts ar 2062 7903.

## YN GALW DINASYDDION TALENTOG

Oes gennych chi dalent canu arbennig? Ydych chi wrth eich bodd yn perfformio i gynulleidfa neu o flaen drych yn yr ystafell wely? Mae rhaglen "Ar y Bocs" yn edrych am dalentau newydd o bob oed i gystadlu yn y gyfres newydd, a bydd yr enillydd y gyfres yn derbyn gwobr go arbennig - ei raglen ei hunan ar S4C. Am ragor o fanylion cysyllwch â chwmni Al Fresco ar frys ar 029 2072 6726 neu alfresco@alfrescotv.com.

## CYMDEITHAS TREFTADAETH Y CAPELI

Mae cymdeithas CAPEL yn gwahodd aelodau newydd i ymuno sydd â diddordeb mewn ceisio sicrhau dyfodol treftadaeth capeli Cymru. Mae gwaith CAPEL yn cynnwys annog, cofnodi ac astudio pensaernïaeth capeli, annog capeli i ddiogelu eu cofnodion, ac annog addasu gofalus capeli nad oes eu hangen bellach ar gyfer eu bwriad gwreiddiol. Mae aelodau yn derbyn cylchlythyrau am waith y mudiad, a gwahoddiad i gyfarfod dwy waith y flwyddyn mewn gwahanol rannau o Gymru i ymweld â chapeli a dysgu am Anghydffurfiaeth mewn gwahanol ardaloedd. Ceir ragor o wybodaeth gan Ms Penny Icke, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Plascrug, Aberystwyth, SY23 1NJ.

## CYSTADLEUAETH DRAMA FER

Lansiwyd cystadleuaeth cyfansoddi drama fer 2002 Cymdeithas Ddrama Cymru. Cynhelir y gystadleuaeth er mwyn hyrwyddo ysgrifennu newydd y llwyfan yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'r dyddiad cau yw Ionawr 31ain 2002. Gwobrwyir yr 1af, 2il a 3ydd â gwobr ariannol, ystyrir cyhoeddi y dramâu a daw i'r brig, ac ystyrir llwyfannu y ddrama Gymraeg orau wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Am ragor o fanylion a ffurflen gais cysylltwch â Fflur Herbert, Cymdeithas Ddrama Cymru, ar 029 2045 2200 neu drwy e-bost aled.daw@virgin.net. Noddir y gystadleuaeth gan Barclays.

## COR CWMBACH YN PLESIO

Mae Côr Meibion Cwmbach, dan arweiniad Emyr Roberts, newydd ddychwelyd o daith lwyddiannus iawn yng Ngorllewin Canada. Bu'r côr yn perfformio i Gymry Cymraeg ardal Vancouver, gyda'r bariton Jason Howard fel unawdydd, ac yn ôl Emyr roedd cynulleidfa frwdfrydig i bob perfformiad.



## Prima Donna yn Glantaf

Dewch yn llu i sioe wefreiddiol Ysgol Gyfun Glantaf. Mae hon yn mynd i fod yn sioe wahanol a bythgofiadwy. Mae Donna eisiau bod yn 'seren' y byd, ac yn anelu am y top! A yw hi yn mynd i lwyddo gyda'r holl drafferthion gartre a diffyg arian?



Mae'r cast wrthi'n brysur yn ymarfer yn ddyddiol, ac yn cael hwyl arni! Mae yna 120 o ddisgyblion yn y cast yn amrywio o flwyddyn 8 i flwyddyn 13 a braf yw gweld pawb yn cyd-dynnu a chyd-weithio a chael sbort ar yr un pryd!

Fe fydd y tocynnau ar werth cyn bo hir-ffoniwch 20333090 i archebu! Croeso i bawb! Fe fydd yn brofiad! Prima Donna -Tachwedd 12, 13, 14, 15fed.



# YSGOL PEN-Y-GARTH, PENARTH

• Llongyfarchiadau i Rachel Ford ar gael rhan yn yr opera "The Little Chimney Sweep" gan Benjamin Brittan, a hefyd i gyn-ddisgybl Steffan Lloyd Evans a gafodd ran hefyd. Cynhyrchir yr opera gan gwmni Alfresco ac fe'i darlledir ar S4C ar Ddydd Nadolig.

• Daeth Ysgol Pen-y Garth yn drydydd yng nghystadleuaeth "Ni Ydy'r Pencampwyr" ysgolion Penarth a drefnir yn flynyddol gan yr heddwas Malcolm Thomas a Heddlu De Cymru. Enillodd disgyblion o'r ysgol y gystadleuaeth nofio – gwelir y tîm yn y llun:

*Cefn, o'r chwith:* Bethan Powell, Megan Evans, Rachel Ford, Lauren Duddridge, Frances Austin a Liam Attwell. *Canol:* Mathew Owen *Blaen o'r chwith:* Menna Givvon, Sam Green, Osian Richards, Tomos Davies a Huw Morgan.

# Glantaf

### Llongyfarchiadau

• Llongyfarchiadau i Tanwen Summers, blwyddyn 13, ar ennill medal aur mewn cystadleuaeth Tae kwon do.

• Llongyfarchiadau i dîm tennis dan 13 oed yr ysgol ar ennill cystadleuaeth ysgolion Caerdydd a'r Fro. Aelodau'r tîm oedd Brychan Morris, Sion Young, Gareth East a Rhys Davies.

• Llongyfarchiadau i Owen Gower ar yr arddangosfa ddiweddaraf o'i waith celf yn un o dai bwyta'r ddinas.

## Cardiau Cymreictod

Eleni cyflwynwyd syniad newydd i annog disgyblion yr ysgol i siarad mwy o Gymraeg. Fe'u gwobrwyir pan glywir hwy yn siarad Cymraeg yn naturiol â'i gilydd tu allan i'r dosbarth. Bu'r ymateb yn hynod o galonogol ac uchafbwynt y cynllun oedd gwobr i'r rhai a gafodd y mwyaf o gardiau, sef trip i Alton Towers. Dyma Siwan Lloyd yn adrodd yr hanes.

Ar ddechrau'r tymor aeth tua pedwardeg o ddisgyblion Glantaf ar fws i Alton Towers fel gwobr Cymreictod. Roedd yn brofiad anhygoel. Yr unig broblem oedd gorfod codi am bump o'r gloch, ond roedd yn werth yr ymdrech.(Gawn ni fynd mewn hofrennydd y tro nesaf i leihau'r amser teithio?)

Roedd pawb yn teimlo mor gyffrous wrth deithio i fyny ar y bws.Profiad anarferol oedd mynd ar bob reid yn syth, heb aros, gan ei fod yn ddiwrnod ysgol. Roeddwn yn meddwl weithiau am fy ffrindiau oedd mewn gwersi Mathemateg neu Ffrangeg tra fy mod i yn plymio i'r tywyllwch ar Oblivion! Roedd yn ddiwrnod arbennig o lwyddiannus.

Diolch i Miss. Jones a'r athrawon eraill am drefnu'r diwrnod gwych hwn. Wedi clywed am ein gwobr, dwi'n siwr bydd llawer o ddisgyblion yn awyddus i'w hennill y tro nesaf.

# YSGOL GYFUN BRO MORGANNWG

• Cafodd disgyblion yr ysgol gyfle yn ddiweddar i fwynhau gweithdy roc dan arweiniad eu tiwtor gerdd, Viv Lock. Mae amrywiaeth eang o wersi offerynnol ar gael yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn mwynhau manteisio arnynt.

• Mae disgyblion yr ysgol wedi bod wrthi yn codi arian tuag at elusen clefyd y galon. Ym mis Medi aeth rhai ohonynt ar daith gerdded o gwmpas Parc Bute i godi arian tuag at ymchwil ac i brynu offer ar gyfer ysbytai. Hyd yn hyn mae'r ysgol wedi codi dros fil o bunnoedd, ac wedi cael cryn sylw yn yr Echo ac ar raglen Heno ar S4C. Maent yn addo dal ati i gefnogi'r achos.



*Aelodau grŵp jazz yr ysgol*



# PLANT A'U PLANHIGION

Bu nifer o ddisgyblion ysgol Iolo Morgannwg yn treulion'r haf yn gofalu am blanhigion a blanwyd ganddynt fel rhan o gystadleuaeth a drefnwyd gan Gymdeithas y Canolfanau Garddio. Wedi i'r ystol ymateb i hysbyseb yn y Times, derbyniwyd gyflenwad o flodau Ffarwel Haf, potiau a phridd gan Ganolfan Arddio Hurrans. Aeth y plant ati'n frwdfrydig i blanu, magu a gofalu am eu planhigion unigol, gan ddod â nhw yn ôl i'r ysgol ym mis Medi i's beirniadu. Yn y llun gwelir yn enillwyr Pippa Hopkins a Morgan Denham yn dangos eu blodau buddugol i'r beirniaid, Phill Evans a Dennis Collett o gwmni Hurrans ac i'w ffrindiau yn yr ysgol.

# NOFIO YN GYMRAEG

Mae adran datblygu nofio Caerdydd, sy'n rhan o wasanaeth Hamdden a Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Caerdydd, nawr yn gallu cynnig gwersi nofio yn Gymraeg i ysgolion y ddinas.

Un o'r ysgolion cyntaf i fanteisio ar y cynllun yw Ysgol Treganna. Ysgolion eraill sydd wedi cael neu sydd ar y rhaglen i gael gwersi Cymraeg yw Ysgol Coed y Gof, Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Bro Eirwg, Ysgol Pencae ac Ysgol Pwll Coch.

Dywedodd y Cynghorydd Jim Regan, yr Aelod Gweithredol dros Hamdden a Dysgu Gydol Oes "Mae'r Cyngor yn falch o allu cynnig gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg i'r ysgolion lleol. Hoffwn gyflogi mwy o athrawon er mwyn ein galluogi ni i ehangu'r ddarpariaeth i bawb sydd am gael gwersi Cymraeg, ond mae hyn yn dibynnu ar nifer yr athrawon y gallwn eu hyfforddi/recriwtio."

Dywedodd Mr Rhys Harries, Prifathro Ysgol Treganna, "Rydw i wrth fy modd fod y gwersi a'r tystysgrifau yn Gymraeg, yr iaith mae'r plant yn defnyddio drwy'r dydd."



*O'r chwith: Y Cynghorydd Jim Regan, Prifathro Ysgol Treganna Rhys Harries, Ema Gill, Ceri Davies a Bryn Williams gyda disgyblion o'r ysgol Lois Williams a Gruffydd Roberts.*

I gael rhagor o fanylion am wersi nofio i ysgolion Cymraeg, neu os hoffwch hyfforddi fel athro/athrawes nofio yna cysylltwch â Shirley Bourge neu Jo Wellbeloved ar 029 2087 3941.

# Y DDINAS YN CIPIO TLWS JOHN ELFED UNWAITH ETO!

Ar brynhawn Sadwrn 29 Medi roedd y duwiau yn gwenu ar ymdrechion golffwyr o gymdeithasau golff o Gymry Cymraeg, wrth iddynt frwydro am dlws John Elfed Jones ar gwrs Llanfair ym Muallt.

Cystadleuaeth i olffwyr Cymraeg eu hiaith yw Tlws John Elfed, ac eleni daeth tair cymdeithas at ei gilydd sef : Y Gambo (Genod a Meibion Bro Ogwr), Lloi Llyn o Bwllheli a'r cyffiniau a Chymdeithas Golff y Ddinas o Gaerdydd, dan ofal Dafydd Hampson-Jones a Wyn Mears.

Yn ogystal â'r brif wobr, 'roedd pawb yn cystadlu am wobrwyon eraill megis Yr Agosaf at y Twll ar y 5ed, Y Dreif Hiraf ar y 18fed ac ati. I aelodau Cymdeithas y Ddinas 'roedd yno hefyd gyfle i geisio am Dlws yr Hydref a noddwyd gan gwmni broceriaid stoc Carr Sheppards Crosthwaite.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth am y tro cyntaf dwy flynedd yn ôl, yn dilyn her gan John Elfed a'i griw o Fro Ogwr. Y Ddinas oedd yn fuddugol pryd hynny, ac yn 2000 hefyd, ac felly mawr oedd gobeithion Y Gambo mai naill a'i nhw neu Lloi Llyn fyddai'n fuddugol eleni.



*Tim y Ddinas, gysa Tlws John Elfed, Hydref 2001*

Ond ofer bu eu hymdrechion wrth i dîm y Ddinas ymateb yn gryf i'r her unwaith eto. Ceri Preece a'i fab Matthew aeth allan yn gyntaf, ac fe bostiwyd sgoriau arbennig o dda gan y ddau a chyda Gwyndaf Evans, Gareth James a Dafydd Hampson-Jones hefyd yn gwneud cyfraniadau pwysig, fe grefftiodd tîm y Ddinas gyfanswm o 171 o bwyntiau, i'w cymharu gyda 149 gan Lloi Llyn a 135 gan Y Gambo.

Braf oedd cael cwmni ieuenctid fel Matthew a Gruffydd Roberts, sydd yn ymuno gyda Geraint a Iestyn Hampson-Jones ymysg tô ifanc y Gymdeithas. Gyda ffrwd o ieuenctid egniol a dawnus fel hyn yn dod atom, gall Cymdeithas Golff y Ddinas a Thlws John Elfed ddim ond fynd o nerth i nerth.

Mae cystadleuaeth 2002 wedi ei threfnu'n barod, ar brynhawn Sadwrn 28 Medi 2002, unwaith eto ar gwrs hyfryd Llanfair ym Muallt.

Mae 'na le a chroeso mawr i ddwy gymdeithas arall i ymuno yn y gystadleuaeth, ac os wyddoch am unrhyw un sydd gyda diddordeb mewn ymuno yng ngweithgareddau golff y gymdeithas, yna cysylltwch, naill ai gyda Wyn Mears (029 2075 8726 / e-bost wyn.mears@lineone.net neu gyda Dafydd Hampson Jones (029 2039 4021 / e-bost Dhampson-jones@carr-sheppards.co.uk)

Yn ogystal â'r trefniadau uchod cynhelir nifer o gystadleuthau golff arall yn ystod y flwyddyn, ledled De Cymru, o dan nawdd Cymdeithas Golff y Ddinas. Am wybodaeth pellach, holwch Wyn neu Dafydd. Gallwch gysylltu hefyd gyda Ceri Preece (029 2022 4871 swyddfa - / e-bost cerip@hjfs.co.uk)

# TIPYN O GAMP!



*Geran Hughes, yn dathlu ar ôl cwpla'r Triathlon!*

Bu Geran Hughes, Llanisien, a'i bartner rhedeg Simon Nurse, Y Ddraenen, ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn cystadlu mewn triathlon "hanner dyn haearn". Roedd hyn yn golygu nofio am filltir a hanner ar draws Llyn Padarn, yna seiclo am 56 milltir o gwmpas yr ardal, cyn rhedeg hanner marathon! Cyflawnodd Simon y gamp mewn pum awr a thair munud ar ddeg a Geran wrth ei sodlau mewn pum awr ac un funud ar bymtheg. I gyflawni'r triathlon cyflawn i fod yn "ddyn haearn" go iawn byddai angen dybli'r pellteroedd ac mae'n fwriad gan y ddau i anelu at gyflawni hynny y flwyddyn nesa. Pob lwc iddynt!

# LLWYDDIANT CWMNI LLEOL

Dyfarnwyd gwobr "Buddsoddwyr Mewn Pobl" yn ddiweddar i un o gwmnïau cyfieithu amlycaf Cymru, Prysg. Prysg yw'r cwmni cyfieithu cyntaf yng Nghymru i ennill y wobr ac wrth ei dyfarnu nodwyd fod Prysg yn rhoi blaenoriaeth uchel i hyfforddi a datblygu ar bob lefel yn y cwmni. Pwysleisiwyd hefyd natur hael y cwmni tuag at ariannu datblygiad staff.

Wedi ei sefydlu fel menter unigol ym 1989 gan y perchennog Janet Davies, o'i chartref ym mhentref Prysg ger y Bont-faen, tyfodd Prysg i fod yn un o gyflogwyr mwyaf y diwydiant cyfieithu yng Nghymru. Erbyn hyn mae'r cwmni'n cyflogi 28 o gyfieithwyr llawn amser yn y brif swyddfa yng nghanol Caerdydd.



*Janet Jones o Prysg yn derbyn gwobr Buddsoddwyr mewn Pobl gan Roger Jones*

# RALI NETWORK Q YN DOD I GAERDYDD

NETWORK Q RALLY
GREAT BRITAIN
Cardiff 22-25 November 2001

Daw rownd terfynol pencampwriaeth rali'r byd nôl i Gaerdydd ar ddiwedd mis Tachwedd. Bydd pencadlys Rali Network Q yn Neuadd y Ddinas rhwng Tachwedd 22 a 25, a bydd dau gymal arbennig yn cael eu cynnal ar drac arbennig ym Mae Caerdydd ar nos Iau 22 a nos Sadwrn 24. Dyma gyfle arbennig i drigolion y brifddinas weld rhai o yrwyr rali gorau'r byd, enwau adnabyddus fel Colin McRae, Richard Burns a Tommi Makinen, yn cystadlu am deitl Pencampwr y Byd. Mae tocynnau i'r cymalau arbennig ar gael o Neuadd Dewi Sant (ffôn 2087 8442) a Ticketline (ffôn 2023 0130), neu o www.networkq.co.uk a bydd swyddfa docynnau arbennig o flaen y Castell o Dachwedd 12 ymlaen.




# FFAIR LYFRAU

Mae cyfle i ymweld â ffair lyfrau go anarferol ym Mae Caerdydd. Bydd y llong Logos II yn ymweld â Chaerdydd rhwng Tachwedd 30 a Rhagfyr 11, gan gynnig dros 4,000 o lyfrau ar bynciau fel gwyddoniaeth, y celfyddydau a llyfrau Cristnogol. Mae'r llong yn rhan o Operation Mobilisation, cymdeithas genhadol ryngwladol, ac yn ystod ei hymweliad bydd cyfle i gael taith o gwmpas y llong, ymuno mewn noson o fawl ar y llong, a dysgu mwy am waith y mudiad. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 029 2049 7909, neu ewch i'r wefan www.logos2incardiff.co.uk.

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Rwy'n siŵr bod gennych chi i gyd eiriadur Cymraeg-Saesneg rhywle naill ai yn y tŷ neu yn eich bag neu'ch poced. Pan oeddwn i'n dysgu'r Gymraeg roeddwn i'n cysgu gyda geiriadur Bruce* wrth ochr y gwely, rhag ofn imi ddeffro ac yn gorfod gwybod, yn y fan a'r lle, y gair am, er enghraifft, greenfly (lleuen y coed neu leuen y dail, gyda llaw).

Cyhoeddwyd y geiriadur cyntaf Cymraeg-Saesneg mor bell yn ôl â 1546/7 - yr ail lyfr i'w gyhoeddi yn y Gymraeg. Sgrifennwyd gan dyn o enw William Salesbury, a aeth ymlaen i fod yr un cyntaf i gyfieithu rhannau o'r Beibl i'r Gymraeg. Roedd geiriaduron wedi dod yn boblogaidd iawn ar draws Ewrop ac roedd Salesbury yn awyddus i'r Cymry ddod yn ddwyieithog (yn enwedig gan fod Cymru a Lloegr wedi uno - dan frenin o dras Cymreig, cofiwch!). Saesneg oedd y Ladin newydd, fel petai - yr iaith i'w gwybod, ac mae'n amlwg o'r geiriadur roedd llawer o eiriau o'r iaith Saesneg wedi treiddio i mewn i'r Gymraeg yn barod! Ond roedd pobl yn dysgu'r iaith Gymraeg hefyd. I'w helpu nhw, cyhoeddodd Salesbury lyfr bach i ddweud wrthyn nhw sut i ynganu'r Gymraeg - mae pethau tebyg yn cael eu cyhoeddi ar y We Fyd-Eang heddiw! Roedd tri math o bobl eisiau dysgu'r Gymraeg. Y grŵp cyntaf oedd y rhai o Loegr oedd eisiau dod i Gymru i werthu a phrynu pethau. Mae ambell un yn Lloegr heddiw yn cymryd diddordeb yn y Gymraeg er mwyn gwneud busnes yng Nghymru. Roedd hefyd Cymry oedd wedi symud o'r wlad a'u plant nhw yn teimlo cywilydd nad ydyn nhw'n gallu siarad eu hiaith ei hun. Heddiw mae plant Cymru dros y byd i gyd yn ceisio dysgu iaith eu tadau. Hefyd roedd pobl heb gysylltiad arbennig â Chymru ond oedd wedi sylweddoli gymaint bydden nhw'n elwa o ddysgu'r iaith hyfryd hon; mae pobl debyg o hyd dros Ewrop a thrwy'r byd - Ffrancwyr, Almeinwyr, Awstraliaid, a phobl o Rwsia, yr Iseldiroedd, ac America.

Diolch i bobl fel William Salesbury mae'r Gymraeg dal yn fyw. O'r diwedd mae llawer o bobl y wlad hon yn dechrau credu bod dwyieithrwydd yn beth da a, dan ein technoleg newydd heddiw, mae cyfle i'r Gymraeg dyfu'n fwyfwy a hynny nid yng Nghymru'n unig ond yn y pentre glofaol lle rydyn ni'n yn byw bellach.

*Geiriadur yr Academi

## Y Border Bach — gan Hwn a Hon



Mae'n gallu bod yn anodd gwneud eich gardd yn le diddorol ym mis Tachwedd. Nid oes llawer o flodau o gwmpas i godi'ch calon, ond mae na ffordd o gael lliw i'r ardd wrth dyfu llwyni sy'n cynhyrchu aeron.

A ydych wedi sylweddoli cymaint o wahanol liwiau aeron sydd ar gael? Y mwyaf cyffredin, wrth gwrs, yw coch y celyn a'r cotoneaster, er gall y rhain hefyd gael aeron melyn neu oren. Mae'r pyracantha yn boblogaidd yng Nghaerdydd ac nawr mae'r llwyni pigog yma yn llawn aeron coch, oren neu felyn. Gellir tyfu'r llwyn i fyny wal neu fur y tŷ neu ei dorri yn siâp taclus.

Mae rhai llwyni ag aeron gwyn arnynt fel y symphoricarpos (snow berry) neu'r pernettya a all hefyd fod ag aeron pinc.

Os oes gennych lecyn cysgodol yn yr ardd, gallwch tyfu'r Solanum - ceirios y gaeaf - sy'n cael ei weld gan amlaf fel planhigyn tŷ, ar werth tua'r Nadolig, ond fe wnaiff dyfu allan hefyd os nad yw'r rhy oer, a ffurfio llwyn bychan destlus.

Efallai mae'r mwyaf dramatig o'r llwyni yma yw'r Viburnum davidii sydd ag aeron glas reit llachar. Mae'r teulu yma yn ddefnyddiol iawn gan fod rhai ohonynt fel V. tinus yn blodeuo o Dachwedd hyd Mawrth. Mae ganddo glysttyrau o flodau bach gwyn. Mae un math yn dwyn yr enw Gwenllian a chanddo flodau pinc golau. Gellir ei dyfu fel standard, hynny yw gyda choes hir a phelen o dyfiant ar ei dop. Ardderchog mewn pot wrth y drws ffrynt.

Ond i fynd yn ôl at yr aeron. Ewch am dro o gwmpas rhai o'r parciau lleol a chewch eich synnu gan yr amrywiaeth yn lliw, siâp a maint yr aeron sydd i'w gweld. Mynnwch rai yn eich border a byddwch yn denu adar o bob math a bydd eich gardd ym mis Tachwedd yn lle diddorol dros ben!

**Geirfa**

yn y fan a'r lle - *on the spot*
cyhoeddi - *to publish*
aeth ymlaen - *he went on*
awyddus - *eager*
ddwyieithog - *bilingual*
uno - *to join*
tras - *origin*
treiddio - *worm one's way*
ynganu - *pronounce*
tebyg - *similar*
y We Fyd-Eang - *the World Wide Web*
cywilydd - *shame*
cysylltiad - *connection*
elwa - *profit*
pentre glofaol - *global village*

## Llwyddiant y Dysgwyr

Eleni llwyddodd dros 300 o ddysgwyr y Gymraeg ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion Cyngor Sir Caerdydd i ennill tystysgrifau Rhydwaith y Coleg Agored. Erbyn hyn mae rhyw 600 o bobl yn cofrestru ar y cyrsiau hyn bob blwyddyn. Cyflwynwyd y tystysgrifau i'r dysgwyr llwyddiannus gan Einir Wyn Thomas , Swyddog Cenedlaethol Dysgu Cymraeg i Oedolion , Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn seremoni yn Neuadd y Sir. Dywed Gareth Kiff, Swyddog Datblygu Cymraeg i Oedolion Cyngor Sir Caerdydd a Menter Iaith Caerdydd " Rydym yn hynod falch bod cymaint o'n ddysgwyr wedi dod i'r seremoni er mwyn dathlu gyda ni a bod mwy a mwy o bobl yn dysgu'r Gymraeg bob blwyddyn.Fel brodor o Gaerdydd mae'n braf gweld cynifer o bobl Caerdydd yn awyddus i ddysgu'r iaith"



## PENWYTHNOS PRESWYL 2001 MERCHED Y WAWR

Gadawodd chwech o ferched glandeg o Gangen Bro Radur am Gaerfyrddin i ymuno â 350 o ferched eraill o bob rhan o Gymru ar 14 Medi i fynychu penwythnos 'hel clecs' mwyaf Cymru yng Ngholeg y Drindod! Thema'r flwyddyn hon oedd 'Llwybrau' a cafwyd bwyd bendigedig a darlithoedd a sesiynau ymarferol penigamp. Y noson gyntaf cafwyd sesiwn Llwybrau'r Cynghanedd ac roedd y pen bardd Mererid Hopwood yno, a gafodd ei magu yn Highfields, Llandaf. Bore Sadwrn darlith gan y pen parablwr ei hun, Hywel Teifi, ac wedyn sgwrs gan Gymraes y Flwyddyn, y Dr Olwen Williams, sy'n feddyg yn delio hefo afiechydon rhywiol. Clywodd y gynulleidfa ffeithiau trist iawn wrth iddi sôn am y canran uchel o bobl ifainc sydd ag afiechydon rhywiol oherwydd diffyg gofal a gwybodaeth sylfaenol ynglŷn â rhyw. Bu cyfle hefyd i wrando ar Huw 'Ffas' a gweld Gareth Richards yn coginio.

Mae croeso cynnes i bawb ymuno â Changen Bro Radur i wrando ar wahanol siaradwyr a mwynhau paned. Ar y rhaglen rhwng nawr a diwedd y flwyddyn mae:
- Tachwedd 7fed - "Radur Ddoe" - Allan Cook
- Rhagfyr 5ed - Coginio Nadolig - Eluned Davies-Scott

Am ragor o fanylion ffoniwch Brenda 20842946



## CADEIRYDD NEWYDD CYNGOR CYMRU YMDDIRIEDOLAETH Y TYWYSOG

Dr Manon Williams ydy Cadeirydd gwirfoddol newydd Cyngor Cymru Ymddiriedolaeth y Tywysog, corff sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd pobl ifanc yn y gymuned. Mae hi'n olynu Kate Thomas a fu yn y gadair am bedair blynedd ar ddeg. Mae Dr Williams yn Bennaeth Materion Cyhoeddus BBC Cymru a chyn hynny bu'n ysgrifennydd preifat cynorthwyol i'r Tywysog Siarl cyn gweithio yn y Cynulliad.

## GWOBR I FFILM

Enillodd y ffilm "Oed yr Addewid" wobr yng Ngŵyl Ffilm Douarnenez yn Llydaw yn ddiweddar. Stewart Jones a bortreadai'r prif gymeriad yn y ffilm a sgrifennwyd a gynhyrchwyd gan Emlyn Williams, Y Rhath gynt, o Lanbedrog. Cynhyrchwyd y ffilm gan gwmni Ffilmiau'r Nant ar gyfer S4C. Llongyfarchiadau i Emlyn Williams sydd hefyd wedi cynhyrchu cyfresi megis "Jabas", "Teulu" a'r "Tair Chwaer".



## GWENNO A'I HALBWM DAWNS

Mae Gwenno Saunders, gynt o Dreganna a chyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf, newydd gyhoeddi albwm dawns o'r enw "Fire in the Sky". Yn un ar bymtheg oed gadawodd Caerdydd i ddawnsio yn y sioe ddawns Wyddelig "Lord of the Dance" gyda Michael Flatley, a bu'n teithio gyda'r cwmni o gwmpas Awstralia ac Ewrop cyn symud i fyw a gweithio yn Las Vegas am ddwy flynedd. Yna bu'n dawnsio mewn sioe newydd gan Michael Flatley o'r enw "Flame" am gyfnod cyn mynd i Lundain lle daeth i nabod cynhyrchydd Sbaenaidd o'r enw Oswin Falguero - cydweithiodd y ddau ar yr albwm newydd. Mae rhieni Gwenno, Tim a Lyn Saunders, a'i chwaer Anna yn dal i fyw yn Nhreganna.

### Cwmni Teledu Elidir

Rydym yn paratoi cyfres o raglenni ar hel achau, cysylltiadau teuluol, olrhain llinach, datrys ambell i ddirgelwch ac adrodd hanesion difyr am hynafiaid. Os oes gan unrhyw un stori hynod i'w hadrodd am berthynas, coeden deuluol neu gefndir eu tylwyth, tybed a gawn ni eu gwahodd i anfon gair atom?

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed am unrhyw ddirgelwch teuluol, trwy ddiflaniad perthynas efallai neu ddarganfod aelod o'r teulu ar ôl cyfnod hir. Yn wir, efallai y gallwn helpu i ddatrys dirgelwch mewn rhai achosion!

Cysyllter â:
Teledu Elidir, Tŷ Alexander, Ffordd Excelsior, Caerdydd CF14 3TD, Rhif ffôn: 029 2061 0555, Ffacs: 029 2061 1555
neu: elidir@celtic.co.uk

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU · THE ARTS COUNCIL OF WALES

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

## SIOP LYFRAU CYMRAEG A CHYMREIG YNG NGHAERDYDD

Y mae'r cytundeb rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Llyfrfa (TSO) ar gyfer gwerthu llyfrau Cymraeg a Chymreig yn y brifddinas yn dod i ben ar 31 Mawrth 2002. Gwahoddir sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth tebyg yn y dyfodol gysylltu â'r:-

Adran Lenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF10 3NX erbyn 23 Tachwedd 2001.

E-bost: tony.bianchi@ccc-acw.org.uk
Ffôn: 029 2037 6500. Ffacs: 029 2022 1447.

## NOSON LAWEN

S4C

**Hoffech chi fod yn un o sêr cyfres Noson Lawen 2002?**

**Dyma'ch cyfle!!**

**Byddwn yn cynnal gwrandawiadau ddiwedd mis Tachwedd.**

**Cysylltwch â ni ar unwaith:**

Sonfedd | ERYRI

**Hen Ysgol Aberpwll, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4JS**
**Ffôn: 01248 671167 • e-bost: sharon.wyn@ff-eryri.demon.co.uk**

## GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones
Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209
82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd
**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri, diweddaru systemau ac unedau rheoli, tystysgrifau diogelwch

## DISGO TEITHIOL CERI CLWB

Cerddoriaeth Gymraeg / Dwyieithog / Saesneg
Priodasau ◆ Partion Penblwydd
Lletygarwch Corfforaethol

**Ar gael dros Gymru benbaladr**
**Ffoniwch Ceri Morgan ar 07774 816209**

## AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

**Geraint B. Llewelyn**
LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED,
CAERDYDD, CF23 6PA
FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch **Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **07967 559664**

*Ar agor i dderbyn galwadau gan gwsmeriaid preswyl:*
*8.00 y bore i 6.00 yr hwyr Llun i Sadwrn*

BT

## *Ffoniwch heddiw*

*i gofrestru am fil ffôn Cymraeg (bil ffôn cyffredin) ynghyd â chatalog gwybodaeth yn y Gymraeg*

*BT bob tro 0800 800 288*
*Defnyddiwch eich Cymraeg*

www.s4c.co.uk



Cyfraith Duw Neu Gyfraith Dyn?

## Y STAFELL DDIRGEL

Cyfres ddrama wedi'i seilio ar nofel Marion Eames

**8.30PM**
**BOB NOS SUL**
**YN CYCHWYN 18 TACHWEDD**
**TRANSL888/889**

DRAMA NEWYDD

S4C